

AGENDA NEWYDD

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod Arbennig o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)

FORE MAWRTH, 6^{ED} HYDREF 2015 am 10.00 A.M.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 2 Hydref 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CARTREF GOFAL PRESWYL MAES-Y-FFYNNON

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n tynnu sylw Aelodau at y materion cynnal a chadw sylweddol yng Nghartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon, ynghyd ag opsiynau ar gyfer rheoli'r risgiau parhaus i drigolion.

3 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:-

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

4. ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR Y CYNGOR

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am arbedion gwerth dros £650,000 mewn perthynas ag uwch reolwyr a threfnau rheoli cysylltiedig ers ailstrwythuro'r uwch reolwyr ym mis Hydref 2014, ynghyd â cheisio sêl bendith y Cabinet i weithredu cynigion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ar gyfer strwythur Uwch Reolwyr diwygiedig ar draws Cyfadrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau arbedion ychwanegol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet